# Diary 1935

# GARETH JONES -

# IN SEARCH OF NEWS

*by*

## GARETH JONES

Ar yr awyren hefyd roedd Joseph Goebbels, ddaeth yn Weinidog Propaganda i Hitler yn ddiweddarach. Dywed Gareth Jones amdano:

*`Yn eistedd y tu ôl i Hitler mae dyn bychan sy`n chwerthin drwy`r amser. Mae ganddo ben Iberaidd cul, a llygaid brown sy`n disgleirio gyda hiwmor a deallusrwydd. Mae`n edrych fel y teip tywyll, bach â phen cul; y teip Cymreig sydd i`w canfod mor aml yn nyffrynoedd Morgannwg. Dr. Goebbels yw hwn, Rhinelander, y brains tu ôl i blaid y Natsiaid, ac, ar ôl Hitler, ei siaradwr mwyaf emosiynol. Mae`n enw i gofio, achos bydd hwn yn chwarae rhan fawr yn y dyfodol.`*

Mae Gareth Jones yn sylweddoli yn 1932 bod Hitler a`r Blaid Natsiaidd yn rhywbeth sy`n mynd i gael dylanwad mawr, yn rhywbeth i`w ofni. Pan fod Hitler yn camu o`r awyren, mae`n cael ei drawsnewid yn llwyr yn ôl Jones.

*`Ond nawr mae`n cael ei drawsnewid yn ysbrydol. Mae pwrpas yn ei lygaid. Dyma Hitler gwahanol... Mae dau Hitler - yr Hitler bachgenaidd, naturiol, a`r Hitler sy`n cael ei ysbrydoli gan rym cenedlaethol aruthrol, Hitler gwirioneddol fawr. Hwn yw`r Hitler sydd wedi deffro`r Almaen`.*

Pennod olaf bywyd Gareth Jones oedd ei daith i China yn 1934. Roedd yn ardal sensitif iawn ar y pryd wedi i`r Japaneiaid ymosod a chipio Manchuria rhwng 1931 ac 1933. Un theori yw bod y dirgelwch am farwolaeth Gareth Jones ynghlwm â`r diddordeb cynyddol oedd gan Japan yn nhiroedd China. Roedd Jones wedi derbyn rhybudd swyddogol i beidio mynd i`r ardal, ond roedd am fentro er mwyn cael mynychu cynhadledd tywysogion yn Inner Mongolia. Roedd milwyr Japan yn ehangu i gyfeiriad Inner Mongolia o Manchuria.

Cafodd Gareth Jones, ynghyd â newyddiadurwr o`r enw Dr Herbert Mueller eu herwgipio gan griw o *bandits* a gofynnwyd am arian i`w ryddhau. Er i`r awdurdodau gynnig arian i`r *bandits* roedden nhw`n gyndyn iawn i ryddhau Jones - cafodd Mueller ei ryddhau. Tra`n cael ei ddal bu Jones yn canu emynau i`w herwgipwyr ac yn eu helpu i drwsio`u *machine gun*. Wedyn cafwyd *cock up* wrth yr ynadon lleol: tra bod un ynad yn trafod rhyddhau Jones, a thalu`r arian, roedd un arall wedi anfon heddlu allan i geisio dal y *bandits*. Penderfynnodd y *bandits* symud eu gwersyll.

Cafodd Jones ei saethu`n farw gan y *bandits* oedd yn cael eu dilyn gan yr heddlu. **Yn hytrach na gadael iddo gael ei ryddhau, roedd yn well gan y *bandits* ei weld yn farw.** Y ffaith yma sy`n gwneud i bobl feddwl bod Jones yn gwybod gormod - pennawd y *Daily Mirror* ar Awst 17, 1834 oedd *`Did Gareth Jones Know Too Much?`*. Ychwanegodd Lloyd George at y farn hon trwy ddatgan *`Rwyf i wedi bod yn poeni`n fawr iawn ers cael gwybod bod Gareth wedi cael ei ddal, a`i gydymaith wedi cael ei ryddhau. O`i adnabod fel yr oeddwn yn ei adnabod, gyda`i awch i wybod y gwirionedd, ofnwn ei fod wedi cael gwybod gormod`.*

Roedd chwaer Gareth Jones, Gwyneth Vaughan Jones, yn dal i gredu yn 1984 bod a wnelo`r llofruddiaeth rhywbeth â`r Japaneaid yn ehangu o Manchuria i Inner Mongolia. Yn ei barn hi roedd cysylltiad rhwng polisi ehangu Japan, a marwolaeth ei brawd. Efallai ei fod wedi deall y sefyllfa yn rhy dda, ac wedi cael ei saethu oherwydd hynny. Wedi`r cyfan, roedd yn berson oedd â chysylltiad agos gyda Lloyd George, oedd yn dal i gael ei ystyried yn ddyn dylanwadol iawn. Os felly, cafodd ei lofruddio oherwydd ei fod yn ysu am gael gwybod y gwir.

## OFFICIAL NEWS OF BRITON'S FATE

### PARENTS' DREADFUL ANXIETY

### EMBASSY'S PROTEST TO CHINA

ALL hopes that the message flashed throughout the world that Mr. Gareth Jones, the British journalist, had been shot dead by the Chinese bandits who kidnapped him would prove false were shattered yesterday by official confirmation of the tragedy from Pekin.

After weeks of terrible anxiety for news of their brilliant son, Major and Mrs. Edgar Jones, who live at Barry, Glamorgan, were faced with even greater suspense from the moment the intimation of the murder had been conveyed to them till the dread official telegram reached

The murder of Mr. Jones is believed in Pekin to be due to a misunderstanding



LENIN'S WIDOW TALKS TO A WELSHMAN




Ar Fehefin 22ain, 1997 roedd Arlywydd Ghana, Jerry John Rawlings yn dathlu ei benblwydd yn 50. Dyn sydd wedi cael ei garcharu yn 1979, wedi arwain dau *coup* llwyddiannus o fewn ei wlad, wedi bob yn arwain Ghana ers 1982, wedi cael *punch up* gyda`i Is-Arlywydd mewn cyfarfod o`r Cabinet eleni.... ac sydd *wedi gwneud hyn i gyd yn y gobaith o fedru cael gwaraed ar* lygredigaeth o lywodraeth ei wlad, ac ail-ddosbarthu cyfoeth ymhlith y werin dlawd.

Nid gwleidydd oedd Rawlings ond milwr. Ei unig fwriad yn 1979 oedd ceisio cael gwared ar lygredigaeth, a gwneud bywyd y tlodion yn haws i fyw. Roedd am gael gwared ar arweiwnyr pwdr, *llwgr, ac yna cynnal etholiadau democrataidd i roi rheolaeth o`i* wlad yn ôl yn nwylo`r bobl. Nid ydym yn dweud bod Rawlings yn *arwr: yn ystod ei gyfnod fel Arlywydd mae llawer o`i* wrthwynebwyr wedi cael eu dienyddio: ond mae`n ddyn enigmatig gyda gweledigaeth bendant: dyma felly hanes Flight Lieutenant JJ Rawlings - Arlywydd Ghana.

Ganwyd Rawlings yn Accra yn *1947: Albanwr oedd ei dad, a* menyw o Ghana oedd ei fam. Yn hytrach na chreu embaras i`w *dad, oedd yn briod â menyw arall, penderfynodd ei fam ei fagu ar* ei phen ei hun. Roedd yn fachgen bywiog oedd yn mwynhau bywyd, er bod ei fam yn dlawd ac yn gweithio`n galed i`w gynnal. Hedfan oedd yr unig beth ar feddwl y Rawlings ifanc, ac roedd yn siom i`w fam pan benderfynodd nad oedd am fynd ymlaen i`r Brifysgol.

Yn ugain oed ymunodd â`r Llu Awyr, gan ennill y wobr am y peilot gorau ddwy flynedd yn ddiweddarach yn 1969. Yn 1977 priododdâ Nana Konadu, ffrind ysgol iddo. Erbyn hyn roedd Rawlings yn poeni`n fawr am lygredigaeth o fewn llywodraeth Ghana, ac er mai swydd gyffredin oedd ganddo o fewn y Llu *Awyr, roedd am wneud rhywbeth i helpu r wlad. Roedd y wlad yn* mynd yn dlotach bob dydd, tra bod uwch swyddogion y fyddin oedd yn ei rhedeg yn mynd yn gyfoethocach. Yn y cyfnod hwn bu Rawlings yn pendroni am ei ddyfodol, ac yn ystyried ... dod yn Offeiriaid i helpu`r tlawd, dod yn blismon i helpu *glanhau r wlad*. a ... dod yn ***armed robber***, er mwyn dwyn wrth y cyfoethog, a rhoi i`r tlawd

Erbyn 1978 roedd Rawlings am weithredu. Roedd gan yr heddlu *ffeil arno eisioes, ac roedd wedi cael ei anfon i Bakistan - o`r* ffordd, yn lle`i fod yn achosi trwbwl. Dychwelodd i Ghana yn 1979. Ar Fai 14, 1979 ymosododd ef a chriw bach o filwyr o`r *rank and file* ar strordy arfau. Llwyddodd y fyddin i`w trechu - erbyn y diwedd dim ond tua hanner dwsin oedd ar ôl, a daethant ger bron llys ar Fai 28, 1979. Yn yr achos llys llwyddodd Rawlings i danio dychymyg ei gyd-wladwyr. Dywedodd yn gyntaf mai ef, ac ef yn unig ddylai gael ei gosbi, oherwydd roedd y lleill yn dilyn ei gyfarwyddiadau. Dywedodd yn ail mai ei fwriad wrth ddechrau`r *gwrthryfel oedd cael gwared ar lygredigaeth, a dylanwad dynion* busnes tramor.

Roedd syniadau Rawlings erbyn hyn yn gyfarwydd ar hyd a lled Ghana, ac ar Fehefin 4 torrodd criw o filwyr mewn i`w gell a`i ryddhau. Dyma ddehcrau *coup* cyntaf Rawlings. Roedd ganddo gefnogaeth y milwyr cyffredin yn y fyddin oedd wedi cael llond bol ar lygredigaeth yr uchel swyddogion. Aeth ati i ffurfio llywodraeth, ac aeth y radio i ddatgan *`Byddaf yn cynnal etholiadau ... ond cyn* ***hynny, rhaid sicrhau cyfiawnder i`r gweithwyr sydd wedi dioddef yn rhy hir ... Rydych naill ai yn rhan o`r broblem, neu`n rhan o`r ateb i`r broblem. Does dim ffordd ganol***`.

Yn ystod ei gyfnod cyntaf mewn llywodraeth aeth ati i sefydlogi prisiau, dinistrio stordai pobl oedd yn storio nwyddau i wneud elw mawr, a charcharu ei wrthwynebwyr. Roedd yn awyddus i osgoi *free for all* ble fyddai milwyr cyffredin yn dial ar eu harweinwyr. Galwodd y broses yn *`house cleaning exercise`*. Erbyn mis Medi roedd yn teimlo ei fod wedi gwneud digon, a throsglwyddodd reolaeth o`r wlad i arweinydd etholedig - Dr. Hilla Limann.

Erbyn 1981 roedd sefyllfa economaidd Ghana yn dirywio. Ar Ragfyr 31 cafwyd ail *coup* Rawlings. Aeth ar y radio i ddatgan ei fod yn dechrau *`rhyfel sanctaidd`* yn erbyn *`gelynion y bobl`*.... *`Rwy`n gofyn am ddim llai na chwyldro - rhywbeth fydd yn trawsnewid trefn gymdeithasol ac economaidd ein gwlad... Mae Limann wedi troi ein hysbytai yn fynwentydd... rhaid rhoi cyfle i`n pobl fwynhau ffrwyth llawn eu llafur... Nid rhywbeth abstract yw democratiaeth, nid rhywbeth ar bapur. Mae`n golygu, uwchlaw pob dim, bwyd, cysgod a dillad... a`r bobl yn cymryd rhan weithredol yn y broses o benderfynu`*.

Ers 1982 mae Rawlings wedi rheoli Ghana. Mae`n cael ei gyhuddo o fod yn unben. Er bod y chwyldro wedi bod yn bwysicach nag egwyddorion democrataidd am ddegawd, aeth Rawlings ati i ddiwygio`r wlad a chyflwyno syniadau mwy rhyddfrydol mewn *masnach. Symudodd tuag at y Farchnad Rydd, ond bu yr arbrawf* yn fethiant. Yn 1996 roedd roedd chwyddiant yn 60%. Yn 1992 cynhaliwyd etholiadau rhydd am y tro cyntaf ers deng mlynedd. Enillodd Rawlings, er bod pobl yn amau tegwch yr etholiadau hyn. Cafwyd etholiadau eto yn 1997, gyda JJ Rawlings yn ennill 58 % o`r bleidlais - y tro hwn doedd neb yn amau tegwch yr etholiadau.

Mae Rawlings yn dal i arwain brwydr yn erbyn llygredigaeth o fewn ei wlad. Ym mis Ebrill 1997 aeth ati i ymosod ar lygredigaeth o fewn ei lywodraeth ei hun. Yn 50 oed eleni, dywedodd wrth ei Gabinet ym mis Gorffennaf: *`Wnaethon ni ddim cynnal chwyldro i`ch gwneud chi`n arglwyddi dros eich pobl.. maen nhw`n newynu ac angen bwyd. Rwy`n disgwyl gwaith oddi wrthoch chi, nid eich gweld yn ymddwyn fel lordiaid`*. Cafodd *punch up* gyda`i Is Arlywydd Arkaah ym mis Gorffennaf 1997; cydiodd Rawlings ynddo, ei fwrw i`r llawr, rhwygodd ei siaced, a`i gicio yn y groin.

Mae pethau mawr ar droed yn Ghana, yn enwedig pan fydd Rawlings yn cael ei orfodi, dan y Cyfansoddiad, i adael ei swydd yn y flwyddyn 2000. Dywedodd eleni: *`The year 2000 is still far away. Those of you seeking leadership should wait till I`m gone. But take it from me, I`ll never allow any corrupt people to come to power.`*

# Gwrol Ryfelgwn



Drwy hanes mae cwn wastad wedi chwarae rhan amlwg mewn brwydrau: o`r rhyfel Peloponesiaidd (431-404cc), i goncwest Attila The Hun yn Ewrop, ble defnyddiwyd cwn yn gwisgo arfwisg mewn brwydrau. Defnyddiodd Napoleon nhw fel gwylwyr, ond yn ystod yr *Ugeinfed Ganrif mae cwn wedi dod yn arwyr rhyfel - dyma* goffadwriaeth Seren Tan Gwmwl i dri ci arbennig: Stubby, Chips a Nemo - Rhyfelgwn.




Y Rhyfel Byd Cyntaf: Stubby

Ci pit bull strae oedd Stubby, cafodd ei ddal gan ddyn o`r enw Conroy a`i smyglo ar fwrdd llong yn 1917. Glaniodd yn Ffrainc gyda`i feistr yn Ionawr 1918, ac ymunodd â`r 26th `Yankee` Division. Un noson tra bod y milwyr yn cysgu rhybuddiodd Stubby nhw bod ymosodiad nwy ar droed, gan roi cyfle i`r milwyr wisgo`u mygydau nwy. Dro arall ymosododd ar ei ben ei hun ar filwr *Almaenig yn y gwersyll trwy gnoi coes y milwr a`i lusgo nes ei fod* yn cael ei ddal.

Cafodd ei anafu`n ddiweddarach gan shrapnel pan grwydrodd i dir neb. Ar ôl gwella o`i anafiadau bu`n ymladd yn Marne, Saint Michel a brwydrau eraill. Cafodd *Victory Medal* ac ar ôl 19 mis ac 17 o frwydrau, dychwelodd gartref gyda Conroy. Daeth yn enwog, a chael y cyfle i gwrdd â General John Joseph `Black Jack` Pershing, aweinydd y fyddin Americanaidd yn ystod y rhyfel. cafodd ei anrhydeddu gan yr Arlywyddion Wilson, Harding a Coolidge. Bu farw`r hen gi yn 1926.

Cafodd ei gorff ei gadw yn amgueddfa`r Groes Goch am 30 mlynedd. tan bod yr elfennau yn dechrau ei ddinistrio. Wedyn fe`i symudwyd i amgueddfa Smithsonian. Mae`n dal i orwedd yno, mewn crate, gyda`r epitaph - *Stubby the dog - Fragile*.

Yr Ail Ryfel Byd - Chips.

Hwn oedd brenin y rhyfelgwn, yn gymysgwch o nifer o wahanol fathau o gwn oedd wedi bridio ar draws ei gilydd dros gyfnod o flynyddoedd. Bu`n gwasanaethu yn Affrica, gan ymuno gyda *goresgyniad y 30th Infantry* yn yr Hydref 1942. Ar ôl bod mewn nifer o frwydrau cafodd ei ddewis yn gi dioglewch yng nghynhadledd Churchill-Roosevelt yn Ionawr 1943.




Yn anffodus cafodd Chips ei ddal mewn sgandal. Roedd ci arall, benywaidd wedi dod yn feichiog, ac ar ôl i`r cwn bach gael eu geni pwyntiwyd pawen at Chips fel y tad. Cafodd ei anfon i frwydr yn Ionawr 1943. Wedi glanio yn Sicily cafwyd awr fawr Chips. Dechreuodd dyn saethu ato ef, a`i feistr gyda gwn peiriant. *Rhuthrodd Chips ato, a chyn bo hir ymddangosodd gydag Eidalwr,* oedd yn cael ei gnoi yn ddarnau ganddo, yn cael ei ddilyn gan dri arall gyda`u dwylo i fyny. Ar ôl cael ei drin am fân anafiadau, bu Chips yn gweithio eto y noson honno: y tro hwn bu`n gyfrifol am ddal deg milwr Eidalaidd.



Am ei weithredoedd dewr derbyniodd Chips y *Purple Heart* a`r *Silver Cross*. Ef oedd y ci cyntaf ac olaf i gael ei anrhydeddu yn yr Ail Ryfel Byd wrth i filwyr cenfigennus gwyno ei fod wedi cael yr un wobr â George Washington! Cafodd ei drosglwyddo i`r Eidal ym Medi 1943, gan ymladd yno, a chwrdd â Dwight D Eisenhower. *Dyma bennod tywyllaf bywyd Chips. Wrth i Eisenhower drio roi pat* ar ei gefn, cafodd ei gnoi gan Chips, a chafodd medalau Chips ei gymryd oddi arno. Cafodd *dishonourable discharge* yn 1945, a bu farw flwyddyn yn ddiweddarach.




Vietnam: Nemo

Roedd cwn yn allweddol i`r UDA yn Vietnam oherwydd yr holl dwneli oedd wedi cael eu hadeiladu gan y Vietcong: roedd cwn yn *gyfrifol am farwolaethau dros 4,000 o filwyr Vietcong*. Y prif ddefnydd o gwn yn Vietnam oedd i amddiffyn canolfannau awyr yr UDA. Er mwyn ceisio eu twyllo roedd y Vietcong yn defnyddio pupur a sbeisiau eraill ar eu cyrff wrth ymosod. Y ci enwocaf oedd Nemo, ac ef oedd yr unig gi i fyw drwy frwydr Son Nhat, mewn maes awyr yn Ne Vietnam.

Wedi i`r VC dorri mewn i`r maes awyr ar Ragfyr 4, 1966 fe saethon nhw ddau gi yn syth. Yn ystod y frwydr cafodd Nemo ei saethu yn ei lygad, cafodd ei *handler* ei saethu a`i ladd, ac ymladdodd yn erbyn dros 15 o`r VC ar un adeg. Cafodd Nemo *honourable discharge* o`r fyddin, a dychwelodd i America lle bu ar y teledu nifer o weithiau. Bu farw o henaint yn 1973.

# Che Guevara - `dyn mwyaf cyflawn ei oes`

Fis diwethaf cafodd gweddillion Che Guevara, dyn sydd wedi bod yn destun breuddwydion i filiynau o fyfyrwyr, eu darganfod yn Bolivia - bron 30 mlynedd wedi iddo gael ei ddienyddio gan fyddin Bolivia yn 1967. Mae SEREN TAN GWMWL yn talu teyrnged i'r dyn hwn, sy`n haeddu`r teitl arwr; ethos Che oedd y dylai pob person tlawd gael y cyfle i astudio a dysgu, oherwydd addysg yn y pen draw, ac nid drylliau a chwyldro oedd yn rhyddhau pobl tlawd o`u caethiwed.

Cafodd ei eni i deulu cefnog o dras Gwyddelig a Sbaeneg yn 1928, ond bu`n rhaid i Ernesto Guevara de la Serna geisio dygymod â phroblemau`n gynnar iawn. Roedd yn dioddef o asthma, a daeth hwn a`i yrfa rygbi ddisglair i ben. Yn y coleg dioddefodd o 45 *asthma attack* mewn 6 mis, ond er gwaethaf hynny llwyddodd i raddio i fod yn ddoctor, gan gwblhau cwrs 6 mlynedd mewn 3. O weld bod modd gwella poen a dioddefaint penderfynodd Che bod angen ymladd y brif broblem - tlodi ac anghyfiawnder cymdeithasol. Anghofiodd am ei yrfa feddygol, a daeth yn chwyldroadwr yn Bolivia.



Er iddo fethu yn ei ymgyrch yn Bolivia, a`r un nesaf yn Mexico, roedd wedi bwrw`i brentisiaeth ac ymunodd gyda Dr Fidel Castro yn Cuba yn 1955, lle bu`n rhan o`r ymgyrch wnaeth orffen mewn buddugoliaeth ogoneddus i Castro 4 mlynedd yn ddiweddarach. Galwodd Jean Paul Satre ef yn `***ddyn mwyaf cyflawn ei oes***`. Daeth yr ymladdwr guerilla yn lys-gennad crwydrol dros ei wlad, yn bennaeth propaganda, yn rhyw fath o Ganghellor, ac yn bennaeth y banc! Cafodd gelyn Cyfalafiaeth ei ddewis i redeg y banc, cyn dod yn Weinidog Diwydiant yn ddiweddarach.

Doedd Che ddim yn credu ei bod yn ddigon i ail-ddosbarthu cyfoeth a gwladoli diwydiannau, roedd am weld y berthynas rhwng dyn a chymdeithas yn newid yn gyfangwbl. Nid rhywbeth i brynu a gwerthu oedd llafur dyn; roedd gwaith fod i roi urddas i *ddyn, i fod yn rhywbeth creadigol ac yn bleser - syniadau cwbl* groes i Gyfalafiaeth. Gadawodd Che Cuba yn 1965 i ddod yn *chwyldroadwr crwydrol parhaol, yn ymestyn y frwydr yn erbyn* imperialaeth yn America Ladin - dychwelodd i gadarnle Cyfalafiaeth - Bolivia.

Roedd nifer o ffactorau oedd yn gwneud chwyldro llwyddiannus yn Bolivia yn llai tebygol na Cuba. I ddechrau doedd cenedlaetholdeb ddim mor gryf yno - un o`r ffactorau wnaeth greu cefnogaeth i Dr Fidel yn ei frwydr wrth-Americanaidd. Yn ail methiant fu ymdrechion Che i werthu ei neges i`r werin yno - yn *wahanol iawn i werin Cuba oedd wedi ei dderbyn et. Fidel, a`u* syniadau, gyda breichiau agored. Yn olaf, nid oedd Che yn ddigon cas. Doedd e ddim yn fodlon dienyddio bradwyr. Yn y pen draw ei agwedd ddynol at ei gyd-ddyn wnaeth ei ddinistrio.

Yn y diwedd cafodd Che ei anafu a`i garcharu mewn brwydr yn yr Hydref 1967; wedyn cafodd ei lofruddio gan fyddin Bolivia. Mae amryw o resymau am y *cwlt* sydd wedi tyfu o gwmpas Che Guevara - y rheswm pennaf yw bod ei eiriau a`i weithredoedd yn *un, ac nid rhagrithiwr ydoedd; doedd dim deuoliaeth - roedd yn* dweud, ac yn gwneud. Roedd yn dadlau mai pleser mwyaf dyn yw gweithio dros ei gyd-ddyn.

Pan fod y Cadfridog yn y ffilm `*Viva Zapata*` yn edrych lawr ar gorff y guerilla marw, mae`n dweud `*Weithiau gall dyn marw fod yn elyn ofnadwy*`. I wledydd cyfoethog y byd, a`u llywodraethau llwgr sy`n rheoli cymaint o wledydd tlawd, mae Che yn elyn bendigedig ac ofnadwy.